

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### BIL ARDRETHU ANNOMESTIG (TOILEDAU CYHOEDDUS)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at unrhyw bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Ardrethi Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Mehefin 2019. Gellir cael copi o'r Bil yn: <https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2017-2019/0185/18185.pdf>
3. Cafodd Bil tebyg ei gyflwyno gerbron Senedd y DU ym Mehefin 2019. Roedd Senedd Cymru wedi cymeradwyo cydsyniad deddfwriaethol y Bil hwnnw ar 16 Gorffennaf 2019. Fodd bynnag, syrthiodd y Bil pan gafodd Senedd y DU ei gohirio ym mis Medi 2019.

#### Amcan Polisi

4. Mae toiledau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hasesu at ddibenion ardrethi annomestig yn yr un ffordd ag eiddo annomestig eraill.
5. Mae'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol er y gellir cymhwyso'r term i doiledau sy'n cael eu gweithredu gan ddarparwyr eraill sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o awdurdodau wedi cau eu toiledau cyhoeddus ac mae rhai wedi trosglwyddo'r eiddo hynny, neu'r cyfrifoldeb dros eu cynnal a'u cadw, i gyrff eraill. Bydd dileu'r rhwymedigaeth ardrethi o gyfleusterau o'r fath yn lleihau'r gost o'u cynnal a'u cadw ac fe allai helpu i'w cadw ar agor.
6. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol darparu toiledau cyhoeddus ac mae'r rhwymedigaeth ardrethi'n un yn unig o'r ffactorau cost y mae angen i'r awdurdodau eu cymryd i ystyriaeth yn eu penderfyniadau ynghylch darparu toiledau cyhoeddus. Mae llawer o ffactorau eraill y mae angen i awdurdodau eu cymryd i ystyriaeth, gan gynnwys a oes darpariaeth amgen ar gael.

#### Crynodeb o'r Bil

7. Yn ôl y darpariaethau perthnasol, lle mae hereditament wedi'i leoli yng Nghymru ac, ar ddiwrnod trethadwy, yn cynnwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf doiledau cyhoeddus, dylid lleihau'r swm trethadwy am y diwrnod trethadwy i sero.

8. Mae'r darpariaethau'n ymwneud â'r holl doiledau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain at ddefnydd y cyhoedd, p'un a ydynt ym mherchnogaeth cyrff cyhoeddus neu breifat neu'n cael eu gweithredu ganddynt.
9. Byddai darpariaethau'r Bil newydd mewn grym o 1 Ebrill 2020.

## **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Mae'r Bil yn diwygio adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sy'n nodi sut y mae rhaid cyfrifo rhwymedigaeth talwr ardrethi ar gyfer ardrethi annomestig ar eiddo sydd wedi'i feddiannu.
11. Cyfrifir y rhwymedigaeth ardrethi annomestig sylfaenol ar gyfer eiddo trwy luosi gwerth ardrethol eiddo gan y lluosydd a'i rannu gyda nifer y diwrnodau yn y flwyddyn ariannol. Mae adran 43 yn darparu ar gyfer rhyddhad gorfodol rhag y taliad. Mae Cymal 1(3) o'r Bil yn diwygio Deddf 1988 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau bilio leihau'r rhwymedigaeth ardrethi i sero ar gyfer hereditamentau sy'n cynnwys 'toiledau cyhoeddus yn gyfan gwbl neu'n bennaf' ac yn gwneud darpariaethau canlyniadol. Ceisir cydsyniad mewn cysylltiad â'r Bil yn ei gyfanrwydd i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru.
12. Bernir bod y mater yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn diffinio sut y dylid asesu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn benodol, mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl (adran 108A(2)(c)). Ystyrir bod paragraff 15 (Adran A1 - polisi cyllidol, economaidd ac ariannol) yn Atodlen 7A yn gymwys i'r ddarpariaeth sy'n rhoi rhyddhad gorfodol i doiledau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae ardrethi annomestig yn perthyn yn glir o fewn yr eithriadau i'r paragraff hwn, ac o'r herwydd nid yw'r materion a gedwir yn ôl yn berthnasol iddo. Ymhellach, bernir nad yw'r darpariaethau'n ymwneud ag unrhyw rai o'r cyfyngiadau cyffredinol yn Atodlen 7B.

## **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus)**

13. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi'i ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol sylfaenol addas a fyddai'n caniatáu i'r rhwymedigaeth ardrethi ar doiledau cyhoeddus gael ei dileu yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr. Mae cynnwys darpariaethau i Gymru yn y Bil yn darparu'r gyfradd sero o ran rhwymedigaeth ardrethi ar gyfer toiledau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn lleihau'r gost o'u cynnal a'u cadw ac fe allai helpu i'w cadw ar agor.

## **Goblygiadau ariannol**

14. Byddai lleihau'r rhwymedigaeth ardrethi ar gyfer toiledau cyhoeddus i sero yn dileu'r angen i filiau ardrethi gael eu dosbarthu ar gyfer eiddo o'r fath. Amcangyfrifir bod y rhwymedigaeth ardrethi bresennol ar gyfer toiledau cyhoeddus yn rhyw £450,000 y flwyddyn.

## **Casgliad**

15. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU hwn am resymau amseriad a chydlyniaeth er mwyn i

doiledau cyhoeddus yng Nghymru gael eu trin ar sail gyfatebol i'r rhai yn Lloegr. Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion iechyd y cyhoedd.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**  
**Mai 2020**